

**DEDDF TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD 1992**

**RHEOLAU TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD (GWEITHDREFN CEISIADAU A GWRTHWYNEBIADAU)  
(CYMRU A LLOEGR) 2006**

**GORCHYMYN RHEILFFORDD FYNYDD ABERHONDDU (RHEILFFORDD YSGAFN)**

**CYNIGION YR YMGEISYDD AM ARIANNU**

**COST GWEITHREDU'R GORCHYMYN ARFAETHEDIG**

1. Byddai'r gorchymyn arfaethedig yn trosglwyddo'r awdurdod statudol ar gyfer gweithredu a chynnal a chadw Rheilffordd Fynydd Aberhonddu i Vale of Rheidol Railway Limited ar ôl cwblhau cytundeb prynu asedau.
2. Gan nad yw'r gorchymyn arfaethedig yn awdurdodi caffael tir nac adeiladu, nid oes unrhyw gostau'n uniongyrchol gysylltiedig â'i weithrediad. Fodd bynnag, mae costau cysylltiedig caffael yr asedau oddi wrth Brecon Mountain Railway Limited.
3. Mae'r caffaeliad wedi'i wneud yn bosibl trwy rodd elusennol hael i Vale of Rheidol Railway Limited, sy'n caniatáu iddynt ariannu'r caffaeliad trwy bryniant arian parod. Mae'r caffaeliad o fewn amcanion elusennol Vale of Rheidol Railway. Mae'r amcanion elusennol wedi'u diwygio i hwyluso'r caffaeliad arfaethedig, gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau wedi'i roi ar 13 Rhagfyr 2023. Ni fydd angen unrhyw fenthyciadau allanol na chymeradwyaeth gan drydydd parti (ac eithrio'r newidiadau cytundebol arferol sy'n gysylltiedig â newid perchnogaeth asedau).
4. Cytunwyd ar benawdau'r telerau gan y ddwy reilffordd ym mis Gorffennaf 2023 ac mae'r gwerthiant a'r pryniant yn mynd rhagddo ar sail gwerthwr parod – prynwr parod. Yr unig amod materol sy'n effeithio ar gwblhau'r gwerthiant yn derfynol yw cymeradwyo'r Cais hwn, a hebdo ni fyddai'r Ymgeisydd yn gallu rhedeg y reilffordd.
5. Mae Vale of Rheidol Railway yn cael ei reoli gan fwrdd cyfarwyddwyr. Ar hyn o bryd mae 5 cyfarwyddwr.
6. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â chynnal a gweithredu parhaus Rheilffordd Fynydd Aberhonddu yn cael eu talu drwy gyllid o ymwelwyr â'r rheilffordd. Byddai'r cyllid presennol yn ddigonol at y diben hwn. Yn wir, roedd gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi'i orchuddio gan gyllid o werthiannau tocynnau mynediad, trenau arbennig a gwerthiannau manwerthu o'r caffis a'r siop anrhegion ar y safle.
7. Fel y cyfeirir ato uchod, nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â gweithredu'r gorchymyn arfaethedig, gan nad oes unrhyw waith na chaffael tir wedi'i awdurdodi ganddo. Mae'r ymgeisydd mewn sefyllfa dda i dalu'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu a chynnal a chadw'r rheilffordd o'i adnoddau ei hun.